GIG CYMRU NHS WALES | Profi Olrhain Diogelu | Test Trace Protect

NHS Test and Trace

# Ap COVID-19 y GIG

Ap COVID-19 y GIG yw'r ffordd gyflymaf a symlaf o amddiffyn eich teulu, ffrindiau, cydweithwyr a'r gymuned rhag y coronafeirws. Lawrlwythwch yr ap heddiw, a'i ddefnyddio.

20m

**Mae dros 20 miliwn wedi lawrlwytho ap COVID-19 y GIG** ac wedi mewngofnodi i lefydd dros 80 miliwn o weithiau, gan helpu i dorri'r gadwyn drosglwyddo.

**Mae ap COVID-19 y GIG yn defnyddio technoleg ddiweddaraf Google ac Apple** i nodi lefel y risg i unigolyn. Mae'r ap yn perfformio'n "rhagorol" yn ôl y diffiniadau rhyngwladol.

**Adeiladwyd ap COVID-19 y GIG gyda phreifatrwydd yn ganolog iddo.** Nid oes angen unrhyw fanylion personol arno ac mae'n defnyddio technoleg Bluetooth ynni-isel.

## Sut mae'r ap yn gweithio - esboniad




Olrhain cysylltiadau

- Pan rydych chi wedi bod wrth ymyl rhywun arall sydd wedyn yn cael prawf coronafeirws positif, mae'r ap yn defnyddio **algorithm** soffistigedig i weithio allan y risg a wynebwch a phennu a ddylid anfon rhybudd atoch.
- Mae'n asesu'r pellter, dros amser, rhyngoch chi a'r unigolyn sydd wedi profi'n bositif, ac yn asesu pa mor heintus oedd yr unigolyn ar y diwrnod yr oedd wrth eich ymyl.
- Os yw'r cysylltiad fu rhyngoch chi â'r person arall yn 'sgorio'yn uwch na'r trothwy risg, bydd yr ap yn pennu eich bod yn wynebu risg uchel ac yn dweud wrthych i hunanynysu.

Os yw pobl yn cael neges i hunaynysu drwy dechnoleg ap COVID-19 y GIG, a'r algorithm, maen nhw'mn wynebu risg uchel a rhaid iddynt wneud hynny, i dorri'r gadwyn drosglwyddo ac atal lledaeniad y feirws.

Ffactor Heintusrwydd





Y dyddiau cyn/ar ôl i symptomau coronafeirws ddatblygu

Unwaith y bydd ap COVID-19 y GIG wedi'i lawrlwytho, dylech ei adael ymlaen ar eich ffôn, yn y gwaith a thu allan. Dyna'r ffordd orau o sicrhau eich bod yn diogelu teulu, ffrindiau, cydweithwyr a chymunedau bob amser, gan gynnwys mewn llefydd COVID-ddiogel.

Mae'r elfen olrhain cysylltiadau'n gweithio ymhobman. Ni ddylid ei ddiffodd, onibai bod y defnyddiwr yn:

- Gweithio tu ôl i sgrîn sefydlog perspecs (neu debyg) ac wedi'i amddiffyn ddigon rhag pobl eraill;
- Gweithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol ac yn gwisgo PPE meddygol, ee masg llawfeddygol;
- Cadw ei ffôn mewn locer neu fan arall a rennir, tra'n gweithio;



Mae ffonau'n 'gweiddi' ar ffonau eraill bob 3.5 mun

- Gweithio ym maes gofal iechyd neu mewn ysbyty neu feddygfa. Rhagor o wybodaeth am hyn **yma**.

Mae'r ap yn gwarchod preifatrwydd a mae pob defnyddiwr yn aros yn ddi-enw.  Nid yw'r ap uyn gwybod pwy ydych chi na lle rydych weid bod, felly nid yw'n gallu anfon eich ena a chyfeiriad at unrhyw un.

Mae ap COVID-19 y GIG yn cydweddu â'r apiau olrhain cysylltiadau yn **yr Alban, Gogledd Iwerddon, Jersey a Gibraltar** ac yn gallu anfon rhybudd os ydych wedi bod wrth ymyl rhywun sydd weid cael prawf coronafeirws positif ac yn defnyddio Protect Scotland, StopCovid NI, Jerey COVID alert neu Beat Gibraltar. Ac i'r gwrthwyneb hefyd.

**I wybod mwy am ap COVID-19 y GIG, ewch i https://covid19.nhs.uk/**

# Sut mae'n gweithio - Cwestiynau Cyffredin

**Pa mor effeithiol yw ap COVID-19 y GIG?**

Mae gan yr ap amrywiaeth o nodweddion, gan gynnwys: mewngofnodi i leoliad, rhybuddion risg yn ôl eich ardal cod post, gwiriwr symptmau a bwcio prawf. Mae'n cyrraedd safonau rhyngwladol "rhagorol". Cafodd yr ap ei brofi'n drwyadl ac rydym wedi cydweithio'n agos â Google ac Apple; gwyddonwyr yn Sefydliad Alan Turing a Phrifysgol Rhydychen; arbenigwyr meddygol; grwpiau preifatrwydd; cymunedau sy'n wynebu risg a thimau mewn gwledydd eraill fel yr Almaen, Seland Newydd, Iwerddon a Gogledd Iwerddon sy'n defnyddio apiau tebyg, i greu ap olrhain cysylltiadau sy'n ddiogel ac yn hawdd ei ddefnyddio.

Yn dilyn dadansoddi manwl, mae gwyddonwyr Sefydliad Alan Turing wedi dangos bod yr ap yn gweithio ac fe gyhoeddir data maes o law i ddangos pa mor effeithiol ydyw. Byddwn yn parhau i adolygu perfformiad yr ap a'i wella.

**Beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r posteri cod QR y GIG yn y gweithle?**

Mae'n bwysig defnyddio ap COVID-19 y GIG bob amser, gan gynnwys yn y gwaith. Dim ond mewn rhai amgylchiadau y dylid diffodd yr ap - nodir y rheini uchod. A dylai'r defnyddwyr osod larwm atgoffa i'w droi nôl ymlaen. Nid yw'r ffôn yn nodi cysylltiadau tra bo'r ap wedi'i ddiffodd. Dylai busnesau fynd ati eu hunain i annog pobl i fewngofnodi i'w lleoliad. Trwy wneud hyn, bydd y gweithle/lleoliad yn helpu'r frwydr yn erbyn COVID-19 ac yn galluogi gwesteion i wybod eu risg yn gyflymach. Mae'r manylion llawn ynghylch lle i osod posteri cod QR **yma**.

**Beth am fusnesau sydd wedi dweud wrth eu gweithwyr i ddiffodd yr ap yn y gwaith?**

Mae'n bwysig defnyddio ap COVID-19 y GIG bob amser, gan gynnwys yn y gwaith. Dim ond mewn rhai amgylchiadau y dylid diffodd yr ap - nodir y rheini uchod. A dylai'r defnyddwyr osod larwm atgoffa i'w droi nôl ymlaen. Nid yw'r ffôn yn nodi cysylltiadau tra bo'r ap wedi'i ddiffodd.

**Beth am y busnesau sy'n gweithredu mewn amgylchedd COVID-ddiogel?**

Dylai gweithwyr sy'n gweithio mewn amgylchedd COVID-ddiogel lawrlwytho'r ap a'I ddefnyddio. Mae'r ap yn gallu adnabod a hysbysu defnyddwyr os ydynt yn dod i gysylltiad â rywun sydd wedyn yn cael prawf coronafeirws positif. Os yw gweithwyr yn dilyn y cyfarwyddyd i hunanynysu gellir atal achosion yn y gweithle heb orfodi mwy o weithwyr i hunanynysu. Dim on dos yw ffôn gweithiwr wedi bod yn agos at ffôn un arall  o ddefnyddwyr yr ap, sydd wedi profi'n bositif, y gofynnir iddo hunanynysu. Os yw gweithwyr yn cadw pellter Cymdeithasol ac yn dilyn y canllawiau o ran diffodd yr elfen olrhain cysylltiadau, ni fydd yr ap yn cofnodi'r cysylltiad.